# Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o'r enw ***Ynni niwclear ac economi Cymru*.**

---

Hoffwn ddiolch yn gyntaf i aelodau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am eu hadroddiad '*Ynni niwclear ac economi Cymru'.* Mae hwn yn adroddiad pwysig ar adeg allweddol yn natblygiad y diwydiant niwclear yn y DU, ac yn enwedig yng Nghymru gyda'r newyddion diweddar bod Llywodraeth y DU wrthi'n prynu Wylfa oddi wrth Hitachi.

Mae'r Adroddiad yn nodi dau brif gasgliad ac rwy'n cytuno â'r ddau. Mae ***Casgliad 1*** yn nodi bod angen dod i benderfyniad ar fyrder ynghylch dyfodol Wylfa a Thrawsfynydd er mwyn helpu i greu'r amodau cywir i ennyn hyder busnesau. Yr ***Ail Gasgliad*** yw bod y sector niwclear yn cynnig y potensial y gall buddsoddi ynddo esgor ar fuddion economaidd-gymdeithasol sylweddol i Gymru ond bod diffyg eglurder yn rhwystro ymdrechion ar y cyd i baratoi'r gweithlu yn ddigonol trwy ddatblygu sgiliau a hyfforddiant.

Heb arwyddion pendant y bydd yna gefnogaeth i safle Wylfa na safle Trawsfynydd, heb sôn am y ddau, mae'n anodd i'r sector cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, cynghorau lleol, darparwyr hyfforddiant addysg bellach) benderfynu faint o adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r sector. Mae'n anodd hefyd i'r gadwyn gyflenwi (gwir a phosib) fesur faint sydd angen ei brynu i mewn a faint o amser ac adnoddau sydd angen ei neilltuo.

Rwy'n falch iawn o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn gyson â'n cynlluniau ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Mor bell yn ôl â 2014, comisiynwyd Miller Associates i ystyried gallu cadwyn gyflenwi Cymru[1] i ymateb i gyfleoedd ar y pryd yn y sector niwclear gan ddod i'r casgliad y byddai dros 11,000 o fusnesau yn gallu cyfrannu at raglen adeiladu newydd. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd y mae gwaith datgomisiynu a phrosiectau adeiladu newydd (Hinkley Point C ac Wylfa Newydd) wedi'u cynnig ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i edrych ar gyflwr y gadwyn gyflenwi er mwyn helpu i gynllunio at y dyfodol.

Er mwyn gallu llwyr wireddu'r potensial hwn, mae angen rhywfaint o sicrwydd ar ddatblygwyr iddynt allu penderfynu sut a ble i fuddsoddi. Mae'r amserlenni ar gyfer cynnal prosiectau yn eithriadol o hir, felly rhaid wrth bolisïau eglur a chysondeb dros amser. Gellid dadlau na chafwyd hyn ac oherwydd hynny ac am nad yw Llywodraeth y DU wedi rhoi digon o gymorth ariannol i brosiectau newydd dros y 15 mlynedd diwethaf, mae wedi bod yn anodd i brosiectau sector preifat gyrraedd cam y penderfyniad buddsoddi terfynol. Mae prosiectau NuGen yn Moorside a Horizon Nuclear Power yn Wylfa Newydd yn brawf o'r anawsterau hyn. Rhaid i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â phroblem diffyg cefnogaeth ariannol a diffyg cysondeb polisi hirdymor er mwyn ennyn yr hyder hirdymor sydd ei angen i gynnal prosiectau seilwaith cymhleth fel gorsafoedd pŵer niwclear.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion yr adroddiad isod, bob yn un.

---

[1] Nuclear Capability in Wales (2014), Miller Associates

**Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad**

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell: -

***O ystyried yr angen brys am sicrwydd yng Nghymru ynghylch datblygu niwclear yn y dyfodol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu amlinelliad gan Lywodraeth y DU yn nodi pryd y bydd yn cadarnhau'r safleoedd dynodedig ar gyfer prosiectau niwclear yn y dyfodol, y mathau o dechnoleg fydd yn cael ei defnyddio, a'r amserlenni ar gyfer gweithredu.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae ymrwymiad i amserlen prosiect niwclear newydd yn y Gogledd yn rhywbeth yr ydym wedi bod yn erfyn amdano gan Lywodraeth y DU ers canslo prosiect Wylfa Newydd yn 2020. Mae'r diffyg eglurder ynghylch sut, os a phryd y caiff prosiect newydd yn Wylfa ei ddatblygu wedi effeithio'n sylweddol ar ein gallu i gynllunio ar gyfer unrhyw brosiect newydd ac ymrwymo i baratoi unrhyw becynnau cymorth (e.e. datblygu'r gadwyn gyflenwi, hyfforddiant a sgiliau ac ati). Mae hefyd yn effeithio ar deimladau pobl leol ynghylch ymarferoldeb niwclear a gall hynny effeithio'n negyddol ar gefnogaeth y gymdeithas i unrhyw brosiect yn y dyfodol.

Mae gennym graidd o gwmnïau yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i'r sector niwclear ers peth amser ac sydd wedi profi eu gallu a'u capasiti i adeiladu prosiect newydd, yn Hinkley Point C[2]. Rydym yn credu fodd bynnag fod gan gadwyn gyflenwi Cymru y potensial i gyfrannu lawer mwy at agenda niwclear y DU ond bod angen iddi allu gweld ymrwymiad clir i brosiectau newydd - hynny yw, i safleoedd a thechnolegau - iddi allu bod yn hyderus y caiff elw yn sgil ei hymdrechion. Byddai ymrwymiad clir Llywodraeth y DU i brosiectau yng Nghymru yn porthi diddordeb y rhai sydd eisoes yn ymwneud â'r sector ac yn ysgogi diddordeb y rheini nad ydynt yn rhan ohono ar hyn o bryd. Ein profiad gyda phrosiect Horizon Nuclear Power yn Wylfa Newydd oedd ei bod yn cymryd amser hir i argyhoeddi'r gadwyn gyflenwi bod y prosiect yn cynnig gwir gyfleoedd a bod ei chyfranogiad i ddatblygu cadwyn gyflenwi'r prosiect yn fuddsoddiad gwerth chweil.

Mae'r cyhoeddiad diweddar bod Llywodraeth y DU wedi dod i gytundeb gyda Hitachi i brynu safle'r Wylfa yn gam i'w groesawu i'r cyfeiriad cywir, ond nid yw prynu'r safle ar ei ben ei hun yn ddigon. Mae angen eglurder ynghylch sut y caiff y prosiect ei roi ar waith (gan bwy, gan ddefnyddio pa dechnoleg, erbyn pryd ac ati) er mwyn gallu dwyn perswâd ar y gadwyn gyflenwi ehangach i gymryd rhan.

**Goblygiadau ariannol** – Dim ar y funud. Mae'r cyfrifoldeb i ddechrau ar Lywodraeth y DU/Great British Nuclear (GBN) i benderfynu ar natur a maint unrhyw brosiect newydd yng Nghymru ac i ariannu'r camau datblygu. Unwaith y bydd gennym eglurder

[2] HPC Report - Socio-economic Impact Report 2022 – gweler tudalen 15
od15364_hpc_socio_economic_brochure_2022-_final._25.04.22.pdf (edfenergy.com)

ac amserlen ar gyfer symud yn ein blaenau, gallwn benderfynu ar ein rhaglenni cymorth a phryd i'w gweithredu.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell: -

***Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'i phartneriaid yng Nghymru ar gynllunio'r gweithlu lleol ar gyfer prosiectau niwclear newydd yng ngogledd Cymru, i gefnogi busnesau lleol a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru.***

**Ymateb: Derbyn.**

Rydym bob amser yn barod i weithio gyda Llywodraeth y DU a'i phartneriaid ar brosiectau sydd o ddiddordeb i'r ddwy ohonom i sicrhau perthynas waith bragmatig sy'n sicrhau'r canlyniadau economaidd-gymdeithasol gorau i bobl Cymru.

Er enghraifft, buom yn gweithio gyda'r Ganolfan Ymchwil i Weithgynhyrchu Niwclear Uwch ar *Fit4Nuclear*, eu rhaglen i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi a gwnaethon ni neilltuo arian i gwmnïau o Gymru gael ymuno â'r rhaglen. Fe wnaethon ni hefyd roi help sylweddol i'r sector addysg bellach i ddarparu cyfleusterau hyfforddi newydd yng Ngholeg Menai yn Llangefni sydd bellach yn gallu cynnig cyrsiau mewn Peirianneg, Saernïo a Weldio, Peirianneg Fecanyddol a Pheirianneg Bŵer – pynciau sy'n berthnasol i'r sector niwclear a'r sector ynni ehangach.

Mewn egwyddor, byddai Llywodraeth Cymru yn dilyn yr un trywydd uniongyrchol wrth ymdrin â phrosiect newydd ag y gwnaeth â phrosiect Wylfa Newydd Horizon Nuclear Power lle sefydlodd Rhaglen Wylfa Newydd fewnol gyda'r nod o sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol mwyaf posibl i Ogledd Cymru. Sefydlwyd nifer o ffrydiau gwaith gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau a chryfhau'r gadwyn gyflenwi ac ar feysydd allweddol eraill a nodwyd drwy'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO).

Fel yn ein hymateb i Argymhelliad 1, mae angen llawer mwy o wybodaeth arnom am unrhyw gynigion ar gyfer y safle cyn y gallwn ddechrau esbonio sut ydym am fynd ati i gynllunio prosiectau a'r gweithlu.

**Goblygiadau ariannol** – Dim ar y funud. Os bydd prosiect newydd yn cael ei gynnal yn Wylfa yna bydd Llywodraeth Cymru yn helpu'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru i gael y buddion mwyaf posibl o'r buddsoddiad. Bydd angen felly dyrannu adnoddau newydd. Cafodd tua £750k ei wario i gefnogi rhaglenni fel Fit4Nuclear yng Nghymru rhwng 2015 a 2019. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu'r ymateb i sgiliau a hyfforddiant ac yn helpu i ariannu'r ddarpariaeth.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

***Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol ac eraill i fynd i'r afael yn benodol â'r anghenion a'r pwysau tai sy'n gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd, a rhoi'r wybodaeth***

***ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd mwy yn hysbys am strategaeth a chynlluniau Llywodraeth y DU***

**Ymateb: Derbyn**

Cafodd sut i fynd ati i gydweithio â phartneriaid awdurdodau lleol ac eraill ei roi ar brawf hefyd yn ystod cyfnod gweithredu Rhaglen Wylfa Newydd. Sefydlwyd ffrwd waith Tai a Llety, yn cynnwys mudiadau tai perthnasol (a Chynghorau Ynys Môn a Gwynedd), i ystyried agweddau allweddol a nodwyd yng nghynigion Horizon fel rhai yr oedd angen rhoi sylw iddynt drwy'r broses DCO.

Os daw prosiect newydd ar gyfer Wylfa, awgrymir dilyn trywydd tebyg gyda phartneriaid i wella'r ffordd rydym yn delio gyda'n gilydd â'r pwysau am dai a llety fydd yn sicr o godi yn sgil datblygu prosiect seilwaith mawr mewn ardal economaidd a daearyddol cymharol ymylol. Bydd maint yr ymyrraeth sydd ei hangen yn dibynnu ar faint y cynigion.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar hyn o bryd. Maes o law, os a phan y caiff problemau o ran tai a llety eu nodi, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol a datblygwr y prosiect i chwilio am atebion priodol a cheisio eu lliniaru er mwyn cadw'r costau i bwrs cyhoeddus Cymru mor fach â phosibl.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell: -

***Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i weithio gyda phartneriaid yng ngogledd Cymru i reoli disgwyliadau lleol a chefnogi cefnogaeth gymunedol ac ymgysylltu â chynlluniau datblygu ynni niwclear yn y dyfodol.***

**Ymateb - Derbyn mewn Egwyddor**

Gadewch i ni fod yn glir - nid yw datblygu polisi niwclear a'i roi ar waith yn faterion datganoledig. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn bennaf yw datblygu prosiectau niwclear newydd a rheoli disgwyliadau cymunedau'r safle. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod prosiectau niwclear newydd yn cynnig cyfleoedd i drawsnewid ac mae bob amser wedi ceisio cyfrannu at helpu prosiectau i fynd yn eu blaen. Yn hyn o beth felly, rydym bob amser wedi ceisio: -

i) Rhoi arweiniad yn ogystal â chefnogaeth wrth ymgysylltu â'r gymuned pan fydd cyfleoedd pwysig wedi'u nodi; ac
ii) Annog partneriaid lleol a rhanbarthol - gan gynnwys busnesau'r gadwyn gyflenwi a datblygu sgiliau - i wneud paratoadau realistig a chymesur yng nghyd-destun cam datblygu'r prosiect.

***i) Rhoi Arweiniad a Chefnogaeth wrth Ymgysylltu â'r Gymuned***

Dros y blynyddoedd mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio gwireddu potensial rhai prosiectau pan nad oedd unrhyw gamau yn cael eu cymryd ar lefel y DU. Fe wnaethon ni sefydlu Cwmni Egino yn 2021 i ystyried sefydlu adweithydd

modiwlaidd bach (SMR) yn Nhrawsfynydd ar ôl i dîm Ardal Fenter Eryri nodi'r cyfle yn y lle cyntaf ac yn sgil y gydnabyddiaeth ehangach o'i botensial wedi hynny[3,4] Dros y 3 blynedd diwethaf mae Cwmni Egino wedi llwyddo i godi proffil y cyfle yn Nhrawsfynydd ac wedi gwneud gwaith sylweddol i baratoi'r safle ar gyfer buddsoddi ynddo, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid lleol.

Dros y 12 mis diwethaf, fodd bynnag, yn sgil creu GBN yn endid o dan Lywodraeth y DU i ddatblygu ei hagenda ei hun ar gyfer SMRs, mae Cwmni Egino, a thrwy hynny, Llywodraeth Cymru, wedi wynebu nifer o broblemau. Ar hyn o bryd rydym yn ceisio eglurder gan GBN a'i noddwyr o fewn Llywodraeth y DU ynghylch rôl Cwmni Egino yng nghyd-destun cyflawni a pholisi sy'n datblygu lle bydd gan GBN y prif gyfrifoldeb am ddatblygu.

Pan gaiff safle Wylfa ei brynu, disgwylir i GBN ganolbwyntio ar Wylfa yn hytrach nag ar Drawsfynydd. Dyna oedd awgrym nifer o'r tystion wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor. Os cadarnheir hyn ac os na fydd cefnogaeth gan GBN i SMRs yn Nhrawsfynydd yn y dyfodol agos, rydym yn mawr obeithio y bydd Cwmni Egino yn cael gweithio gyda GBN i roi prosiect newydd ar waith yn Wylfa tra'n cadw ei rôl ddatblygu yn Nhrawsfynydd a pharhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar y potensial i sefydlu adweithydd ymchwil/uwch a/neu adweithydd radioniwclid meddygol yn y dyfodol.

### *ii) Annog Gwaith Paratoi a Chymesur*

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod yn bragmatig yn ei barn am botensial y sector niwclear. Rydym yn cydnabod y gallai fod manteision sylweddol o ymwneud â phrosiectau newydd ac o fuddsoddi yn y gadwyn gyflenwi ond rydym hefyd yn cydnabod bod angen cydbwyso hyn yn erbyn y ffaith nad oes unrhyw sicrwydd y daw elw o unrhyw fuddsoddiad nes bod prosiect yn mynd heibio 'cam y penderfyniad terfynol i fuddsoddi' (FID). Tan hynny, mae'r buddsoddiad cyfan - gan y sectorau cyhoeddus a phreifat (datblygwyr a'u cadwyni cyflenwi) - yn fenter.

Gydag Wylfa Newydd, cyn y penderfyniad terfynol i fuddsoddi, gwnaethon ni geisio annog agwedd bragmatig at gyfleoedd posibl i'r gymuned leol a'r rhanbarth ehangach ac i'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Roedd Horizon yn glir o'r cychwyn na fyddai'r rhan fwyaf o fanteision yn dechrau cyrraedd tan y câi'r penderfyniad terfynol ei wneud a dywedodd y byddai am rannu'r gadwyn gyflenwi yn dri maes: -

i) Byddai'r rhan fwyaf o'r Ynys Niwclear (e.e. llestri gwasgedd yr adweithyddion) a rhywfaint o gydrannau'r gwaith yn dod o Japan, gan y gwyddys fod gan y gadwyn gyflenwi yn Japan y gallu a'r capasiti yn sgil adeiladu adweithydd ABWR Hitachi-GE;
ii) Cydrannau, cynhyrchion a gwasanaethau a fyddai'n debygol o gael eu darparu gan Japan i ddechrau, ond a allai gydag amser gael eu darparu gan gadwyn gyflenwi'r DU/Cymru - os bydd modd cystadlu o ran ansawdd a phris;

[3] Small Modular Reactors: A UK Opportunity (imeche.org)
[4] The future of nuclear power in Wales: Government response to the Committee’s Second Report of Session 2016–17 (parliament.uk)

iii) Gwasanaethau a chynnyrch lleol – ar gael yn y lle cyntaf i gadwyn gyflenwi Cymru eu darparu.

Penderfynon ni weithio gyda chadwyn gyflenwi Cymru i sicrhau'r buddion mwyaf posibl o faes iii) a gweithio gyda Horizon a'r gadwyn gyflenwi i nodi meysydd yn ii) lle mae cadwyn gyflenwi Cymru eisoes yn gryf ac a fyddai gyda chymorth, yn gallu bod yn wirioneddol gystadleuol.

Byddwn yn debygol o ddilyn trywyddau gwaith tebyg gyda phartneriaid ar unrhyw brosiectau newydd a ddaw i'r Gogledd yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol** - Ddim yn gwybod ar hyn o bryd. Os bydd Cwmni Egino yn gweithio yn y dyfodol gyda GBN, bydd gofyn i GBN ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb ariannol am y cwmni ar ôl blwyddyn ariannol 2024/25.

**Argymhelliad 5**

Mae’r Pwyllgor yn argymell: -

***Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ynghylch ei rhan yn Nhasglu Sgiliau Niwclear Llywodraeth y DU a pha gamau y mae’n eu cymryd i gydnabod a mynd i’r afael â rhwystrau posibl i gynyddu sgiliau ar gyfer y sector niwclear***

**Ymateb: Derbyn**

Bydd yn her sylweddol cael hyd i weithlu niwclear. Mae'r sector niwclear yn brin o 9,400 o bobl ar hyn o bryd, ond mae angen i'r gweithlu dyfu o 83,000 i 123,000 erbyn 2030 i wasanaethu a chynnal y galw a ddisgwylir. Mae tua 35% o'r gweithlu niwclear dros 50 oed heddiw ac ar sail y cyfraddau ymadael diweddaraf, bydd angen i'r sector recriwtio 135,000 o weithwyr medrus newydd erbyn 2030. Mae'r sefyllfa'n gwaethygu am fod nifer y prentisiaid wedi bod yn cwympo dros y 5 mlynedd diwethaf a bod prinder ymgeiswyr â'r sgiliau gofynnol yn ceisio am 43% o swyddi STEM gwag. Mae'r nifer sy'n astudio graddau STEM wedi arafu dros yr 20 mlynedd diwethaf ac nid yw'r rhan fwyaf o raddedigion STEM y DU byth yn mynd i weithio mewn swyddi STEM medrus iawn.

Sefydlwyd Tasglu Sgiliau Niwclear[5] newydd sydd â swyddogion o Lywodraeth y DU (Y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adrannau Addysg a Diogeledd Ynni a Sero-Net), academyddion a phartneriaid yn y diwydiant yn aelodau ohono. Syr Simon Bollum (cyn Brif Swyddog Gweithredol Defence Equipment and Support) yw'r Cadeirydd. Cafodd y Tasglu ei sefydlu ym mis Awst 2023 i ddatrys y problemau uchod a helpu sectorau amddiffyn a niwclear sifil y DU i gael y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn i fanteisio ar gyfleoedd twf yn y dyfodol.

Ni chafodd Llywodraeth Cymru ei gwahodd i ymuno â'r Tasglu, ac nid ydym wedi cael unrhyw gysylltiad ffurfiol ag ef hyd yma. Ond mae fy swyddogion mewn cysylltiad â rhai o aelodau'r Tasglu, ac rydym yn deall y bydd Adroddiad y Tasglu yn debygol o

[5] Nuclear Skills Taskforce - List of Members - March 2024.docx

wneud argymhellion ar ystod o ofynion sgiliau sy'n generig i'r sectorau amddiffyn a niwclear yn gyffredinol, yn hytrach na rhai penodol i brosiect neu brosiectau.

Os yw Cymru am gyfrannu at ddatrys y broblem diffyg sgiliau niwclear y DU, bydd angen cael gwybod a oes targed penodol a mesuradwy ar gyfer sgiliau yng Nghymru, beth allai rhaglenni datblygu sgiliau a phrentisiaethau eu costio i Lywodraeth Cymru a pha fuddion economaidd-gymdeithasol fydd i economi Cymru o'u hariannu.

Gall mynd i'r afael â gofynion prosiectau unigol am sgiliau fod yn (gymharol) symlach i'w mesur, ond o ystyried eu graddfa bosibl, ni ddylid dibrisio'r dasg. Ni fydd modd cadarnhau faint o sgiliau a pha fath o sgiliau fydd eu hangen ar Gymru nes y caiff y dechnoleg a'r lleoliad eu cadarnhau.

Pan oedd prosiect Wylfa Newydd Hitachi yn fyw, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Addysg a Sgiliau i ddelio â darparu hyfforddiant a sgiliau fel rhan o Raglen fewnol a thrawsadrannol Wylfa Newydd i ymateb i'r heriau niferus gododd o'r prosiect.

Er bod prynu safle Wylfa (ac Oldbury) yn gam i'r cyfeiriad cywir, nid ydym eto wedi cyrraedd y cam yn esblygiad unrhyw brosiect newydd ar gyfer Wylfa lle rydym yn gwybod (heblaw am rai cymariaethau amrwd â phrosiect Wylfa Newydd Horizon) beth fydd ei natur neu ei strwythur, pwy fydd yn ei arwain na pha dechnoleg y bydd yn ei defnyddio. Heb wybodaeth bendant, mae'n amhosibl cynllunio unrhyw ymyriadau penodol ystyrlon.

Rydym yn disgwyl ymlaen at weld cyhoeddi Adroddiad y Tasglu maes o law ac ystyried sut ydym am ymateb i unrhyw un o'i argymhellion sy'n berthnasol i'n hamgylchiadau yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim eto ond fel gyda'r ymatebion i argymhellion blaenorol, os bydd prosiect Wylfa newydd yn cael mynd yn ei flaen, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn bennaf fydd ariannu'r hyfforddiant a datblygu sgiliau nad ydynt ar gyfer prosiectau penodol.

**Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

***Pan fydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cyfeiriad strategol a rhaglen niwclear newydd yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda'r sector addysg a sgiliau, Prif Swyddogion Rhanbarthol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a phartneriaid ledled Cymru gyfan i ysgogi'r cyflymder angenrheidiol o newid i sicrhau'r manteision economaidd-gymdeithasol mwyaf.***

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn gwneud hyn ar yr adeg iawn. Yr allwedd fydd sicrhau bod yr holl bartneriaid yn deall y cyfleoedd y gall prosiect niwclear newydd mawr eu cynnig a chreu ethos tîm er mwyn gallu gweithio mewn ffordd gydlynol.

Mantais cydlynu fel hynny yw crynhoi adnoddau ariannol a dynol a datblygu atebion trawsranbarthol i ddatrys problemau sy'n rhy anodd mynd i'r afael â nhw ar lefel asiantaeth leol neu unigol. Byddwn yn annog ac yn gweithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol i archwilio cyfleoedd a allai arwain at sefydlu prosiectau rhanbarthol ag iddynt werth ychwanegol.

Enghraifft o ddull rhanbarthol llwyddiannus sydd wedi elwa ar niwclear yw prosiect Somerset Larder[6] yng Ngwlad yr Haf. Sefydlwyd Somerset Larder yn 2014 i ddod â chynhyrchwyr bwyd a diod y sir ynghyd i gydweithio er mwyn cystadlu am gontractau arlwyo mawr ym mhrosiect adeiladu niwclear Hinkley Point C. Mae'r Larder wedi bod yn hynod lwyddiannus. Tyfodd yn gyflym ac mae bellach yn rhedeg pedwar bwyty a phedair siop goffi dan arweiniad tîm o 300 o bobl ar safle 400 erw. Yn 2021, amcangyfrifwyd bod y cwmni'n cyfrannu £20m bob blwyddyn i'r economi leol. Roedd menter debyg yn cael ei hystyried ar gyfer y Gogledd-orllewin cyn canslo Wylfa Newydd. Gallai prosiect newydd yn Wylfa fod yn sbardun i atgyfodi'r syniad a chyweithiau cydweithredol eraill.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar hyn o bryd.

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

[6] Somerset Larder – nourishing the community